

ASTUDIAETH ACHOS

# Ian Robinson

Mae Ian yn cynrychioli wyth eiddo sy'n ffurfio Partneriaeth Ffibr Llandegla. O'r wyth eiddo yn y Bartneriaeth hon, mae dau yn aelwydydd preifat a'r gweddill yn fusnesau.  Mae Ian ei hyn yn defnyddio'r rhyngrwyd am lu o resymau, gan gynnwys ysgrifennu e-byst, gwneud ymchwil, prynu nwyddau ar-lein, a rheoli ei wefan. Ar ben hynny, mae gan eich ferch fusnes ar-lein hefyd.

## Heriau gyda mynediad annibynadwy i'r rhyngrwyd

Cyn mabwysiadu ffibr llawn, roedd y cysylltiad rhyngrwyd yn yr ardal yn araf ac yn annibynadwy, gyda'r cyflymder lawrlwytho tua 10MBPS a'r cyflymder uwchlwytho tua 1.5Mbps. Yn ogysta, gallai'r rhyngrwyd fynd i ffwrdd bedair i bum gwaith y dydd,  byddai'n rhaid i'r defnyddwyr aros tua pum munud cyn iddo ail ddechrau.  Ar rai adegau byddai'n rhaid i'r defnyddwyr gysylltu a'u darparwyd rhyngrwyd, byddai'r cwmni yn rhoi hwb i'r cyflymder ond fel arfer ni fyddai'r cyflymder uwch yn para'n hir. Yn y sefyllfaoedd hyn, gallai cysylltu a'u darparwyr gymeryd oriau.

Yn bersonol, mae Ian wedi ystyried cael cysylltiad RadioLink, ond penderfynodd fod hyn yn anymaferol gan fod llawer o goed rhwng ei eiddo a'r trosglwyddydd.

## O bartneriaeth ffibr i ffibr llawn

Fel y person oedd yn arwain y prosiect, bu'n rhaid i Ian gofrestru Cwmni Buddiant Cymunedol gyda 'Companies House' er mwyn i Lywodraeth Cymru allu rhoi'r talebau iddynt a fyddai'n ariannu gosod bang eang ffeibr ar gyfer y gymuned. Bu'n rhaid iddo dalu ffi flynyddol o £15 i gadw'r cwmni wedi'i gofrestru.

Bu rhywfaint o oedi i ddechrau, gan fod yn rhaid iddynt wneud cais am ganiatad cynllunio i gau ffyrdd i osod y seilwaith sydd ei angen i ddarparu band eang ffibr llawn i'r gymuned.

Fodd bynnag, roedd y newid ei hun yn gymharol hawdd ar ol i'r caledwedd gael ei sefydlu; y cyfan oedd yn rhaid i'r defnyddwyr ei wneud oedd dewis darparwr rhyngrwyd.

Mae band eang ffeibr llawn wedi cael effaith gadarnhaol ar Ian a'i gymuned yn Llandegla.  Mae'n gweld y gallai wneud popeth yn gyflymach ac mae'n falch iawn gyda'r canlyniad, a gyda BT fel darparwr rhyngrwyd. Mae Ian hefyd yn hapus iawn y gallai ffrydio ei hoff sioeau teledu o BBC iPlayer heb unrhwy ymyrraeth.

Uchelgais Gogledd Cymru Ambition North Wales

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU